CYFRES C7

# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Enw ______________________



DARLLENWCH
2 Samuel 9: 1-13




ADNOD ALLWEDDOL
2 Samuel 9: 7

*Gofynnwch i rywun eich helpu i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 4 Dafydd a Meffiboseth

Mab Jonathan ac ŵyr y Brenin Saul oedd Meffiboseth. Pump oed oedd Meffiboseth pan gafodd ei dad a'i dad-cu eu lladd mewn brwydr yn erbyn y Philistiaid. (Mae'r hanes yn stori 3). Ar yr un diwrnod, cafodd Meffiboseth ddamwain gas ac anafu ei draed. Wedi hynny, roedd yn gloff.



**C Pwy oedd tad Meffiboseth?**
J __ __ __ ___ __ __

**Pwy oedd tad-cu Meffiboseth? S __ __ __**

**Beth oedd yn bod â Meffiboseth? Roedd yn g __ __ ___**

6

Roedd Meffiboseth yn byw mewn rhan unig o'r wlad. Doedd neb llawer yn gwybod amdano ond un diwrnod daeth y Brenin Dafydd o hyd iddo a galw arno i ddod i'r palas.
Roedd Meffiboseth yn ddyn ifanc erbyn hyn. Mae'n siwr ei fod yn meddwl tybed pam yr oedd Dafydd wedi galw amdano. Efallai ei fod yn meddwl bod Dafydd yn mynd i ddial arno am y drafferth a achoswyd gan ei dad-cu, Saul!
Pan gyrhaeddodd Meffiboseth i'r palas, gwelodd nad oedd ganddo ddim i'w ofni. Roedd y brenin eisiau bod yn garedig wrtho.



**Dywedodd y brenin,**

“Rwy eisiau bod yn garedig i ti.”

**Lliwiwch y llun a'r geiriau.**

5

Doedd Dafydd ddim yn gallu anghofio ei ffrind Jonathan. Yn wir, roedd wedi addo y byddai'n garedig i deulu Jonathan "am byth"! (Mae'r hanes yn 1 Samuel 20:15). Yn awr, flynyddoedd yn ddiweddarach, cofiodd Dafydd ei addewid. Yr unig ffordd y gallai gadw'r addewid oedd bod yn garedig wrth Meffiboseth.

**C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn GYWIR neu'n ANGHYWIR.**

Galwodd Dafydd Meffiboseth i'r palas er mwyn:-

1. ei ladd. ...............
2. cadw ei addewid i Jonathan. ...............
3. talu nôl am y ffordd roedd ei dad-cu wedi'i drin. ...............
4. bod yn garedig wrtho. ...............

4

Roedd gan y Brenin Dafydd gynllun ar gyfer Meffiboseth. I ddechrau, rhoddodd holl dir ei dad-cu, y Brenin Saul, iddo. Hefyd, daeth â dynion i aredig y tir, hau'r cnydau, a chynaeafu'r cnwd. Ar ben hynny, cyhoeddodd y brenin y byddai Meffiboseth yn byw gydag ef yn Jerwsalem ac y byddai'n bwyta gydag ef bob dydd fel pe bai'n un o feibion y brenin



**C Llanwch y bylchau.**

**Saul      Dafydd      Jonathan      Meffiboseth**

1. Rhoddodd y Brenin Dafydd y tir a oedd yn eiddo i ________________ i ____________.
2. Bob dydd, roedd ________________ yn bwyta gyda'r brenin ____________.
3. Roedd Dafydd yn garedig wrth Meffiboseth er mwyn ________________.

5

Mae'r stori hon yn ein helpu i ddeall bod Duw yn gallu bod yn garedig wrthon ni trwy faddau ein pechodau ni a'n gwneud ni yn rhan o'i deulu. Mae'n gallu gwneud hyn oherwydd bod Iesu Grist wedi marw dros ein pechodau.

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 C7

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120